

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

1999 No. 3184

Gorchymyn Deddf Iechyd 1999
(Cychwyniad Rhif 1) (Cymru) 1999

Enwi, dehongli a chwmpas

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Iechyd 1999 (Cychwyniad Rhif 1) (Cymru) 1999.

(2) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr “Deddf 1977” yw Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977⁽¹⁾ (“the 1977 Act”);

ystyr “Deddf 1990” yw Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990⁽²⁾ (“the 1990 Act”).

ystyr “y Ddeddf” yw Deddf Iechyd 1999 (“the Act”);

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

⁽¹⁾ 1977 c. 49.

⁽²⁾ 1990 c. 19